**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig        ARD 13-00(p1)**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 11 Hydref 2000
**Amser** 9.00am tan 12.20pm
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## CYFARFOD PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG - 11 HYDREF 2000

## ADRODDIAD YSGRIFENNYDD Y CYNULLIAD DROS AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG

## CYFEIRIAD AMAETHYDDIAETH YNG NGHYMRU YN Y DYFODOL

1. Yr wyf i, a holl aelodau eraill y Pwyllgor, yn ymwybodol o'r angen i bennu cyfeiriad hir dymor ar gyfer dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru, a'r camau y gall y Cynulliad Cenedlaethol ac eraill eu cymryd i'w gynorthwyo i'r cyfeiriad hwnnw. Wrth wneud hynny, mae gofyn i ni ystyried elfennau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar gynaliadwyedd. Hefyd, mae'n rhaid i ni fod yn realistig: yngln â phwysau'r farchnad ar y diwydiant, ac yngln â'r hyn y gall y Cynulliad Cenedlaethol ei wneud.

2. Mae'r sylfeini eisoes wedi'u gosod ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r ymgynghori ar "Ffermio ar gyfer y Dyfodol" wedi helpu wrth lywio Cynllun Datblygu Gwledig Cymru a DRS Amcan 1. Yn awr, yr wyf am adeiladu ar hyn. Felly, yr wyf yn sefydlu grp o arbenigwyr ffermio, bwyd a chefn gwlad Cymru i roi cyngor i mi wrth baratoi gweledigaeth a chamau ategol ar ddyfodol ffermio yng Nghymru. Byddaf yn cadeirio'r grp hwn yn bersonol, a byddaf yn cyhoeddi rhestr yr aelodau maes o law. Fy nod yw cyhoeddi dogfen y gwanwyn nesaf.

3. Bydd y broses o gynhyrchu'r ddogfen yn broses agored. Bydd fersiynau drafft o'r hyn a drafodir gan y grp yn cael eu cylchredeg i'r Pwyllgor, ac yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd. Byddaf, wrth gwrs, yn trafod y materion ag aelodau pleidiau eraill, a chyrff allweddol eraill â diddordeb, yn ystod y misoedd nesaf, a bwriadaf gyflwyno'r ddogfen ddrafft i'r Pwyllgor am drafodaeth ffurfiol cyn ei chyhoeddi.

## RHAGLEN DATBLYGU GWLEDIG

4. Cymeradwywyd Cynllun Datblygu Gwledig Cymru gan Bwyllgor STAR - sef un o bwyllgorau allweddol y Comisiwn Ewropeaidd - ar ddydd Iau 21 Medi. Mae hwn yn gam pwysig tuag at gynlluniau'r Cynulliad Cenedlaethol i hyrwyddo'r economi gwledig ehangach; y cwbl sydd ar ôl yw derbyn llythyr cymeradwyo ffurfiol gan y Comisiwn. Lluniwyd y Cynllun trwy ymgynghori agos a sylweddol â chyrff amaethyddol, amrediad eang o gyrff â diddordebau gwledig ac asiantaethau cyhoeddus allweddol, gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol. Hoffwn gofnodi fy niolch personol i bawb a gyfrannodd. Byddant, wrth gwrs, yn parhau i helpu wrth wireddu blaenoriaethau ac

amcanion y Cynllun.

5. Cyn cael cymeradwyaeth ffurfiol, yr ydym yn symud ymlaen â'r gwaith i weithredu'r amrywiol fesurau a geir yn y Cynllun, fel Tir Mynydd er enghraifft, ail agor y Cynllun Ffermio Organig a'r cynlluniau cyfalaf i gefnogi'r cynlluniau gweithredu ar Fwyd-Amaeth.

**TIR MYNYDD**

6. Gan nad yw'r Cynllun Datblygu Gwledig yn wynebu unrhyw rwystrau mawr bellach, gallwn gychwyn egluro manylion y cynllun i'r gymuned amaethyddol. Mae staff Swyddfeydd Rhanbarthol yr Adran Amaethyddiaeth eisoes wedi cychwyn ar gyfres o gyfarfodydd agored ym mhob rhan o Gymru gyda'r undebau amaethyddol a'u haelodau i egluro manylion y cynllun ac i ateb unrhyw gwestiynau arno.

7. Yn ddiweddarach y mis hwn, byddwn yn anfon ffurflen gais a Nodiadau at bob ffermwr cymwys yn egluro'r cynllun. Mae'n rhaid i geisiadau gael eu dychwelyd i'r Swyddfeydd Rhanbarthol lleol erbyn 6 Rhagfyr 2000 fan bellaf.

**CYNLLUN FFERMIO ORGANIG**

8. Ddydd Sadwrn diwethaf (7 Hydref), yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas y Pridd, cyhoeddais y byddai'r Cynllun Ffermio Organig yn agor ar gyfer ceisiadau ar 1 Tachwedd. Wrth agor y cynllun mor fuan ar ôl i'r CDG gael ei gymeradwyo, Cymru yw'r cyntaf i'w roi ar waith yn y DU. Cyhoeddais hefyd fy mod wedi sicrhau £2.28 miliwn ychwanegol ar gyfer y cynllun yn y flwyddyn ariannol hon, sef cynnydd o 120% ar y dyraniad gwreiddiol.

**CYNLLUN GWEITHREDU AROLWG CWSMERIAID**

9. Yn gynharach yr haf hwn, cynhaliodd y Cynulliad Cenedlaethol arolwg mawr o farn ffermwyr am y gwasanaeth a ddarperir ar eu cyfer gan y Cynulliad Cenedlaethol ar grantiau a chymorthdaliadau CAP. Yn dilyn yr arolwg, lluniwyd Cynllun Gweithredu dan y teitl *Translating the voice of Welsh Farming into action*. Lansiwyd y cynllun hwn gennyf yn Aberhonddu ar 4 Hydref. Mae hwn yn gam pwysig arall yn ein hymdrech i sicrhau gwelliant pellach yn y gwasanaeth a ddarperir gan y Cynulliad Cenedlaethol i ffermwyr Cymru.

10. Mae'r Cynllun Gweithredu yn edrych ar y sylwadau a fynegwyd yn yr arolwg cwsmeriaid, ac yn nodi'r camau y bwriadwn eu cymryd i sicrhau gwelliannau. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol eisoes wedi gwneud bywydau ffermwyr yn haws trwy gwtogi a symleiddio ffurflenni cais a darparu gweithdai Agenda 2000. Yr ydym yn awr wedi cyflwyno clinigau cofnodion (gweler isod) i helpu ffermwyr i osgoi'r camgymeriadau mwyaf cyffredin wrth lenwi ffurflenni. Adolygir y Cynllun Gweithredu erbyn diwedd Ebrill 2001, a bydd y canlyniadau ar gael yn gyhoeddus.

**CLINIGAU COFNODION**

11. Mae cyfres o Glinigau Cofnodion yn cael eu cynnal ym mhob rhan o Gymru yr hydref hwn i helpu ffermwyr ag unrhyw bryderon sydd ganddynt mewn perthynas â chwblhau cofnodion da byw. Mae'r fenter hon yn ymateb uniongyrchol i gais ffermwyr am fwy o gymorth i ddeall gofynion cadw cofnodion cynlluniau cefnogi ffermwyr.

12. Ar ddydd Mercher, 4 Hydref bûm yn y clinig cyntaf, a gynhaliwyd ym Marchnad Aberhonddu. Cynhelir clinigau eraill yn ystod pythefnos cyntaf mis Tachwedd mewn 23 o leoliadau ar draws Cymru. Bydd swyddogion profiadol o Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn bresennol i helpu ffermwyr unigol yn y 23 lleoliad a ddewiswyd ar draws Cymru. Gobeithiaf y bydd ffermwyr yn defnyddio'r gwasanaeth hwn, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, ac sydd wedi'i gefnogi gan bob un o'r prif gyrff amaethyddol.

**PROFION CAE GM, SIR Y FFLINT**

13. Cynhaliwyd y cyfarfod cyhoeddus i hysbysu trigolion lleol am faterion yn ymwneud â'r Profion Cae GM yn Sealand, Sir y Fflint, yng Nghei Connah ar 14 Medi.

14. Cadeirydd y cyfarfod oedd Bob Macey, Pennaeth Is-adran yr Amgylchedd, ac roedd y panel yn cynnwys cynrychiolwyr o Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, yr ymchwilwyr annibynnol sy'n astudio'r profion, a'r grp biotechnoleg diwydiannol, SCIMAC. Cafwyd cyflwyniad byr gan bob un o aelodau'r panel, ac yna fe atebwyd cwestiynau.

15. Dim ond 24 o bobl oedd yn bresennol. Hysbysebwyd y cyfarfod yn y wasg leol, ac ysgrifennais at yr awdurdod lleol a'r cyngor cymuned. Roedd yr argyfwng petrol ar ei anterth ar ddyddiad y cyfarfod, felly rwy'n amau bod hynny wedi effeithio ar y niferoedd. Yn ogystal, nid ydym wedi derbyn llawer o sylwadau yngln â'r prawf o'r ardal leol. Llwyddodd Cyfeillion y Ddaear i deithio o Gaerdydd, a deallaf eu bod wedi gwneud cyfraniad defnyddiol i'r drafodaeth, a aeth ymlaen am dros 3 awr. Yr adborth o'r cyfarfod oedd bod y rhan fwyaf o bobl yn ddiolchgar am y cyfle i ddweud eu dweud.

**STRATEGAETH BWYD-AMAETH**

16. Yn y mis diwethaf, cafwyd nifer o ddatblygiadau positif sy'n tynnu sylw at y cynnydd yn ein strategaeth o gefnogi prosesu gwerth ychwanegol o ran cynnyrch amaethyddol Cymru. Hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at dri phroject o'r fath:

- **BURGER MANUFACTURING COMPANY**
- Ar 15 Medi, agorais ffatri brosesu newydd y Burger Manufacturing Company yn Llanfair ym Muallt. Derbyniodd y cwmni Grant Marchnata a Phrosesu o £194,000 gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r ffatri yn defnyddio cig oen a chig eidion o Gymru i gynhyrchu byrgyrs cig oen a chynnyrch cyffelyb, gan ychwanegu gwerth at ein prif gynnyrch a chyflogi pobl yng Nghymru wledig. Dyma enghraifft dda o'r strategaeth bwyd-amaeth ar waith, gan ei fod yn

ychwanegu gwerth at chwarthorau blaen cig oen - un o argymhellion allweddol y Cynllun Gweithredu ar Gig Oen a Chig Eidion.

- **PRYD BWYD CYNTAF GYDA CHIG LLO HEB GREULONDEB**
- Ar 29 Medi, bûm yn y cinio cyntaf i ddefnyddio cig a gynhyrchwyd dan broject Cig Llo Cymru, sy'n anelu at ddefnyddio lloi nad oes eu hangen ar ffermydd llaeth i ddatblygu diwydiant cig llo heb greulondeb. Bydd llwyddiant y project hwn yn helpu Cymru i ddatblygu diwydiant cig llo llwyddiannus ar gyfer marchnad gartref a thramor, a chreu ffynhonnell arian ychwanegol i'r gymuned amaethyddol.
- **CAWS DYFFRYN AERON**
- Ar 29 Medi, agorais ffatri storio a chynhyrchu caws newydd i Gaws Dyffryn Aeron yn Llanbedr Pont Steffan. Denodd y ffatri fuddsoddiad o £2.2 miliwn. Bydd y project pwysig hwn, a gefnogwyd â grant gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn ychwanegu gwerth at laeth a gynhyrchir yn lleol, ac yn cynnig marchnad ddiogel i 150 o ffermwyr llaeth yn y Gorllewin. Mae’n enghraifft wych o'r math o ddatblygiadau yr ydym am eu hannog i sicrhau dyfodol hyfyw i amaethyddiaeth yng Nghymru.

**ADRODDIAD YMCHWILIAD BSE**

17. Mae uwch swyddogion wedi derbyn copïau ymlaen llaw o adroddiad ymchwiliad yr Arglwydd Phillips. Mae'r cynnwys yn cael ei astudio'n ofalus, ac ni wneir unrhyw sylw hyd nes y bydd y Llywodraeth wedi cyhoeddi'r adroddiad a rhoi ei ymateb rhagarweiniol. Deallaf fod y Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiad yn fuan wedi i'r Senedd ddychwelyd at ei waith.

**YSGOL HAF DATBLYGU GWLEDIG RHYNGWLADOL**

18. Derbyniodd Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig (UN/FAO) ein gwahoddiad yn gynharach eleni i gynnal y 13eg Ysgol Haf Datblygu Gwledig Rhyngwladol yng Nghymru, ac i lansio'r digwyddiad yn Lydstep, Sir Benfro ar 10 Medi. Mae'r ysgol haf, a drefnir gan yr UN/FAO yn cynnig hyfforddiant mewn arferion gorau, cyfnewid rhyngwladol, a rhannu profiadau a theithiau astudio. Mae'r gwledydd sydd wedi cynnal ysgolion haf diweddar yn cynnwys Croatia, Sbaen, yr Alban a Groeg. Mae themâu yn amrywio o fewn fframwaith datblygiadau ar gyfer menywod gwledig a'u teuluoedd.

19. Yr ysgol eleni oedd y gorau erioed o ran niferoedd, gan ddod â 19 o gynrychiolwyr o 14 o wledydd Ewropeaidd at ei gilydd. Roedd y gwledydd hynny'n cynnwys Armenia, Estonia, y Ffindir, Sweden, Norwy, Latvia a Lithuania. Testun yr ysgol oedd "Rhwydweithio ac Adeiladu Partneriaethau ar gyfer Datblygu Gwledig". Mae'r UN/FAO wedi dweud iddo werthfawrogi'n fawr y croeso cynnes a'r lletygarwch a gafodd y cynrychiolwyr, ynghyd â'r cyfleusterau gwych a ddarparwyd. Yr wyf yn ddiolchgar i swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol, Awdurdod Datblygu Cymru a SPARC am eu gwaith dros y misoedd diwethaf wrth sicrhau bod y gynhadledd yn llwyddiannus, ac yn llwyfan gwych i hyrwyddo Cymru.